



<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	23/11/2020
<b>Teitl:</b>	Polisi Cyfathrebu
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn adborth gan y Bwrdd am y Datganiad Polisi Cyfathrebu newydd
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

### Cyflwyniad

Mae'n rhaid i'r Gronfa ddarparu, cynnal a chyhoeddi datganiad polisi cyfathrebu yn unol â Rheoliad 67 o Reoliadau Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Mae'n rhaid i'r polisi cyfathrebu gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi yn dilyn unrhyw newid mewn polisi. Yn affodus nid yw polisi Gwynedd wedi cael ei ddiweddarau ers 2010.

### Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw cyhoeddi datganiad yn nodi'r polisi sy'n ymwneud â'r dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa).

Yn unol â rheoliadau LGPS, mae'r polisi cyfathrebu'n manylu ar:

- darparu gwybodaeth a chyhoedduswydd am y cynllun
- fformat, amllder a dull dosbarthu gwybodaeth a chyhoedduswydd
- hyrwyddo'r cynllun i ddarpar aelodau a'u cyflogwyr.

### Casgliad

Mae nifer o newidiadau wedi digwydd mewn perthynas â'r ffordd y mae'r gronfa'n cyfathrebu o fewn y 10 mlynedd diwethaf, felly rydym wedi ddiwygio'r datganiad i gynnwys ein dulliau cyfathrebu cyfredol.

Byddem yn gwerthfawrogi adborth ar y polisi gan y Bwrdd cyn i'r polisi gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau.